Cystadleuaeth Celf Tir – Ras Feicio 'Tour of Britain' – Cymal Cymru, dydd Sul 2 Medi 2018

Land Art Competition –Tour of Britain Cycle Race – All-Wales Stage, Sunday 2nd September 2018

(scroll down for English)

Mae trefnwyr Ras Feicio 'Tour of Britain' OVO Energy yn trefnu cystadleuaeth i chwilio am y celf tir gorau a mwyaf trawiadol ar hyd llwybr y ras eleni.

Mae grwpiau cymunedol, ysgolion, busnesau a thirfeddianwyr yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y gystadleuaeth a byddai'n braf gweld darnau celf ar dir Powys yn cael eu darlledu'n fyw ar ITV4 wrth iddynt ffilmio'r ras – a hyd yn oed ennill y gystadleuaeth!

"*Mae'n bleser ychwanegu'r gystadleuaeth celf tir at ffyrdd y gall cymunedau ar draws y wlad fod yn rhan o'r ras ym mis Medi",* dywedodd Cyfarwyddwr Ras 'Tour of Britain' OVO Energy, Mick Bennett.

"Yn ystod cymal Swydd Nottingham yn benodol, fe welsom enghreifftiau gwych o gelf tir gan grwpiau cymunedol, ac mae hyn wedi'n hysbrydoli ni i annog pobl ar hyd llwybr cyfan y ras eleni i ddangos eu cefnogaeth ac i fod yn greadigol."

Bydd yr enillydd yn derbyn tlws a gwobrau i gofio am y 'Tour of Britain', gyda gwobrau i'r rhai sydd yn cipio'r ail a'r drydedd wobr hefyd.

Eleni, bydd cymal cyntaf y ras eleni yng Nghymru yn mynd o Ben-bre i Gasnewydd, gan ddod i Bowys ar hyd yr A40, ychydig cyn Halfway. Bydd yn mynd tua Threcastell, Pontsenni ar hyd yr A4215 i Ddefynnog ac yna ar hyd yr A470 trwy Libanus ac ymlaen i Aberhonddu gan ddilyn y B4601. Bydd y ras yn gadael Aberhonddu ac yna ymlaen ar hyd y B4558 i Bencelli, Talybont a Llangynidr ac yna ar hyd yr A4077 Ffawyddog tua'r Fenni.

Gallwch weld y manylion llawn ar www.tourofbritain.co.uk/stages/stage-one

Os hoffech chi neu'r grŵp gymryd rhan, ewch i

www.tourofbritain.co.uk/land-art am rai awgrymiadau a chyngor defnyddiol i'ch helpu chi fod yn greadigol.

Bydd angen anfon gwybodaeth lawn ar unrhyw ddarnau celf trwy e-bost i media@thetour.co.uk erbyn 5 pm, dydd Gwener 24 Awst 2018.

Land Art Competition

Organisers of the OVO Energy Tour of Britain Cycle Race, are running a competition to look for the best and most eye-catching land art alongside the route of this year's event.

Community groups, schools, businesses and land owners are invited to take part in the competition and we would love to see installations along the Powys stretch of the

route captured on film during the live TV coverage of the race on ITV4 – and possibly even a winning entry!

"We are delighted to be adding this land art competition to the ways that communities across the country can get involved in the race this September," said OVO Energy Tour of Britain Race Director Mick Bennett.

"Last year's Nottinghamshire stage in particular saw several fantastic examples of land art created by community groups, and this has inspired us to encourage people across the route this year to show their support and get creative."

The winner will receive a trophy and commemorative Tour of Britain prizes, with trophies for second and third places too.

The all-Wales opening stage of this year's race runs between Pembrey and Newport, coming into Powys along the A40 at Trecastle, through Sennybridge, via the A4215 to Defynnog and along the A470 via Libanus and on to Brecon following the B4601. The route leaves Brecon and heads along the B4558 to Pencelli, Talybont, Llangynidr and Llangattack before heading off towards Abergavenny.

Full route details can be seen at www.tourofbritain.co.uk/stages/stage-one

If you or your group are interested in taking part, please visit www.tourofbritain.co.uk/land-art where you can also find some useful tips and advice to aid your creativity.

Full information on any installation needs to be submitted via email to media@thetour.co.uk by 5pm on Friday 24 August 2018.